# Adroddiad Arolygu

**Gofal Seibiant Care Ltd**

**44-46 Y Stryd Fawr**
**Gofal Seibiant Care Ltd**
**Llangefni**
**LL77 7NA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gofal Seibiant Care Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gofal Seibiant Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Medi 2017 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Yn Gweithio Tuag Ato<br>Dyma wasanaeth sy'n dangos cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae llesiant y bobl yn flaenoriaeth i'r darparwr gwasanaeth. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn derbyn gwasanaeth da ac maent yn fodlon ar y gofal a roddir iddynt. Mae digon o staff gofal sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n effeithlon. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn frwdfrydig ynghylch y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ganddynt ac maent yn sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir. Caiff rheolwyr y gwasanaeth eu goruchwylio'n effeithiol ac mae'r darparwyr yn buddsoddi yn y gwasanaeth lle y bo'n bosibl.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwnaethom siarad â dau unigolyn a thri aelod o deuluoedd unigolion a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael; maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y staff gofal, eu bod yn gwrando arnynt a'u bod yn eu trin â pharch. Gwnaethom edrych ar dair ffeil gofal, sy'n dangos bod y gofal y mae pobl yn ei gael wedi'i gynllunio o gwmpas anghenion unigol. Gwelsom reolwyr a staff gofal yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i sicrhau bod dewisiadau unigolion yn cael eu bodloni a bod anghenion gofal unigolion yn cael eu diwallu. Darperir y gofal yng nghartrefi pobl.

Mae'r bobl mor iach ac egnïol ag y dewisant fod. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i barhau â'i drefn ddyddiol. Mae'r gofal a ddarperir wedi'i deilwra i ddewisiadau ac anghenion unigol pobl. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau; dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn eu cefnogi i ffonio neu ddefnyddio FaceTime. Mae'r staff gofal yn effeithiol wrth gyfleu gwybodaeth ar ran teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal, cymorth a chysylltiadau amserol â gweithwyr iechyd proffesiynol.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod. Gwelsom fod cofnodion gofal yn cael eu diweddaru yn unol â'r gofynion, a phan/os bydd anghenion gofal yn newid. Gwelsom fod camau amserol yn cael eu cymryd i atal y risg o niwed pan fydd anghenion gofal yn newid. Dywedodd tri aelod o staff gofal wrthym eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryderon am rywun a'u bod wedi cael hyfforddiant diogelu. Mae cofnodion y staff gofal a rhaglen hyfforddiant y gwasanaeth yn dangos y cânt eu hyfforddi o fewn y terfynau amser gofynnol. Dywedir wrth y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth sut i roi gwybod am eu pryderon ac mae'r canllaw i'r gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud hynny. Gwelsom gyfathrebu effeithiol ynghylch pryderon diogelu ag asiantaethau priodol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r staff gofal yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu drwy raglen hyfforddiant y gwasanaeth. Gwelsom fod y staff gofal yn brofiadol ac yn fedrus wrth gefnogi pobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y staff gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r hyfforddiant a'r gefnogaeth i'r staff gofal yn effeithlon.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn adnabod eu gofalwyr a'u bod yn fodlon ar y gofal a roddir iddynt. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod ystyriaeth wedi'i rhoi i drefn y bobl a'u cyswllt â theulu a ffrindiau. Mae'r cofnodion yn dangos hefyd bod ystyriaeth a gofal wedi'u

rhoi i sicrhau bod trefniadau yn ddiogel a'u bod yn unol â'r gofynion rheoli heintiau, yn sgil y pandemig presennol.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r cynlluniau personol yn gyfredol, yn gywir ac yn fanwl. Mae’r bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu cynlluniau gofal unigol. Caiff cofnodion gofal sy'n nodi dymuniadau a chredoau pobl eu hystyried a'u cefnogi. Mae'r cofnodion gofal yn dangos y caiff pobl gefnogaeth i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"Rydw i bob amser wedi bod yn hapus â'r gofal rwy'n ei gael."* Dywedodd tri aelod o'r staff gofal wrthym fod copïau o gofnodion gofal y bobl yn cael eu cadw yn nhai'r bobl ac yn cael eu diweddaru gan y gofalwr yn ystod pob ymweliad. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y staff gofal yn cofnodi'n gywir ac yn glir yn ystod pob ymweliad. Mae'r cofnodion hyn yn dangos manylion sut y caiff y bobl eu cynorthwyo gyda bywyd pob dydd, gan gynnwys prydau bwyd a symud.

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd da. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y gofal yn cael ei gynllunio ar sail anghenion unigol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt ac y maent ei eisiau. Dywedodd y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol fod y staff gofal a'r rheolwyr yn cydweithio ac yn cyfathrebu'n effeithiol mewn perthynas ag anghenion a dymuniadau gofal pobl.

Gellir trefnu gwasanaethau gan weithwyr gofal proffesiynol i'r bobl. Mae'r cofnodion gofal a welsom yn dangos tystiolaeth fod amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn rhan o'u gofal. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn teimlo'n hyderus y bydd y staff gofal yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud pan fydd angen a bod newidiadau yn cael eu gwneud pan fydd anghenion gofal yn gwaethygu neu'n gwella. Gwelsom gyfeiriadau at asesiadau risg pan fo anghenion o ran gofal a chofnodion yn newid. Caiff cofnodion gofal eu cofnodi'n glir ac maent yn drefnus.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth o brosesau effeithiol ar gyfer rheoli heintiau; mae'r polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli heintiau yn gyfredol â'r canllawiau presennol. Dywedodd tri aelod o'r staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus a'u bod wedi cael eu hyfforddi i ddilyn gweithdrefnau rheoli heintiau, gan gynnwys trafod bwyd, golchi a diheintio dwylo, gwisgo a diosg a defnyddio PPE a chadw pellter cymdeithasol. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n ddiogel ac mae'r gwasanaeth yn rheoli heintiau'n dda. Dywedodd y rheolwyr, *"Rydym yn falch ein bod wedi cadw'r bobl a'r staff gofal yn ddiogel".*

Mae'r gwasanaeth yn dilyn dull diogel o reoli meddyginiaethau. Gwelsom bolisi a gweithdrefnau meddyginiaeth y gwasanaeth, a oedd yn gyfredol ac yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys canllawiau i gefnogi'r bobl i gymryd eu meddyginiaeth yn annibynnol.  Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant mewn rhoi meddyginiaeth a'u bod yn gweithio'n agos gyda gweithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen arweiniad a hyfforddiant. Gwelsom fod systemau ar waith i'r tîm rheoli sicrhau'n rheolaidd bod meddyginiaethau yn cael eu rhoi yn briodol. Gwelsom sampl o siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth sy'n dangos bod y staff gofal yn cofnodi mewn ffordd effeithiol a chywir. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus wrth gael eu cynorthwyo gan y staff gofal i gymryd eu meddyginiaeth.

## Arwain a Rheoli

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau trefniadau llywodraethu effeithlon i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o safon. Gwelsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth a oedd yn unol â datganiad o ddiben y gwasanaeth; mae pob dogfen a welsom yn gyfredol â'r rheoliadau. Mae'r cofnodion gofal a welsom yn dangos tystiolaeth o asesiad trwyadl o angen cyn i bobl ddefnyddio'r gwasanaeth; mae'r broses o gynllunio gofal yn cynnwys y bobl, eu ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Caiff gofal ei fonitro mewn ffordd amserol; gwelsom fod cofnodion gofal yn cael eu diweddaru a'u newid os/pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn glir ac wedi cael canllawiau ynghylch sut mae'r gwasanaeth yn monitro'r gofal a ddarperir. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a gânt o ansawdd dibynadwy a da.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy broses monitro ansawdd barhaus. Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau ar waith i asesu, monitro a gwella'r gwasanaeth a ddarperir, sy'n cynnwys adborth gan y bobl sy'n derbyn gwasanaeth a monitro misol gan y rheolwr. Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth a chanllaw'r gwasanaeth, a oedd yn cyfeirio at y prosesau monitro y gwnaethom eu hadolygu. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol yn gofyn am adborth gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol; caiff hyn ei adlewyrchu yn adroddiad yr unigolyn cyfrifol.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol y gwasanaeth a buddsoddiadau ynddo yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cefnogi diogelwch y bobl a'r staff. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn swyddfa newydd fel prif leoliad i'r gwasanaeth. Prynwyd y swyddfa er mwyn sicrhau diogelwch y staff gofal a'r bobl yn sgil y pandemig. Gwelsom fod materion ariannol y gwasanaeth yn cael eu hadolygu bob wythnos. Dangosodd hyn fod buddsoddiadau pellach yn cael eu gwneud os bydd elw. Gwelsom fod y dogfennau monitro misol yn dangos y broses o recriwtio staff. Gwelsom hefyd gynlluniau pellach i adolygu ffordd fwy effeithlon o ymdrin â chostau teithio a phrydlesu ceir. Mae archwiliadau o gyllid y gwasanaeth yn dangos cynlluniau rheoli ariannol effeithlon.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu gofal o ansawdd da. Gwelsom fod mesurau ar waith i sicrhau bod digon o staff ar gael drwy'r amser. Gwelsom fod camau a mesurau priodol ar waith os bydd staff yn sâl, os bydd ymweliadau yn cael eu methu neu os bydd ymweliadau'n rhedeg yn hwyr. Gwelsom fod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel, eu bod yn brofiadol ac yn cael eu hyfforddi. Caiff y staff gofal hyfforddiant sefydlu llawn sef "Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan". Caiff y staff gofal eu

goruchwylio o fewn y terfynau amser gofynnol; dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Gwnaethom edrych ar y rhaglen hyfforddiant, a oedd yn dangos bod y staff gofal wedi cael yr hyfforddiant gofynnol a'i fod yn gyfredol, a gwelsom y cynllun ar gyfer hyfforddi staff (2021-2022). Gwelsom fod hyfforddiant ar reoli heintiau yn cael blaenoriaeth yn sgil y pandemig. Gwelsom fod y bobl yn cael gofal gan yr un staff sy'n eu hadnabod yn dda. Dywedodd y darparwr, *"Rydym yn anelu at ddarparu'r gofal sydd ei angen ar y bobl yn ogystal â'r hyn y mae'r bobl ei eisiau".*

Mae gan y darparwyr gwasanaeth drefniadau priodol ar waith i roi gwybod i'r cyrff rheoleiddio a'r asiantaethau statudol perthnasol os bydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol yn effeithio ar unigolion.  Mae AGC yn derbyn hysbysiadau amserol a phriodol. Gwnaethom adolygu copi'r gwasanaeth o ddigwyddiadau sy'n gyson â'r cofnodion y cafodd AGC ei hysbysu amdanynt. Gwelsom fod y darparwr gwasanaeth wedi ymateb drwy gymryd camau effeithlon a phriodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi prynu swyddfa yn ddiweddar y gall y staff gofal a theuluoedd ei defnyddio'n ddiogel. Mae'r swyddfa hon yng nghanol Llangefni. Darperir hyfforddiant a sesiynau goruchwylio yn yr adeilad hwn. Ceir swyddfeydd eraill yn Amlwch a Nefyn.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/06/2021